



Pwysigrwydd perllannau



Peillio

Mae coed ffrwythau'n bwysig iawn ar gyfer peillio. Mae eu blodau'n ffynhonnell bwysig o neithdar ar gyfer pryfed peillio fel gwenyn, glöynnod byw a phryfed hofran.



Cynhyrchu bwyd

Mae perllannau'n darparu ffrwythau i bobl eu bwyta yn ogystal ag amrywiaeth eang o anifeiliaid gan gynnwys adar a gwiwerod. Mae pryfed hefyd yn dibynnu ar y ffrwythau fel ffynhonnell fwyd.



Mae perllannau'n darparu lleoedd i ni eu mwynhau

Gall perllannau ddarparu ardaloedd gwyrdd hanfodol yn ein dinasoedd a'n trefi, lle gall pobl ymlacio a chysylltu â natur.



Buddion o ran addysg



Mae perllannau'n rhoi cyfle i ddysgu ym myd natur ac am fyd natur yn ogystal â lle i ddysgu a hyfforddi sgiliau traddodiadol fel tocio ac impio.





Amrywiaeth eang o gynefinoedd

Mae'r pren mewn coed ffrwythau'n heneiddio'n gyflym, gan ddatblygu nodweddion fel pren marw, boncyffion cau a thyllau pwdr. Mae'r rhain yn darparu cynefin ar gyfer gwahanol rywogaethau fel ystlumod, cnocellod y coed, tylluanod a phryfed.





Mae coed yn gwella ansawdd pridd

Pan fydd dail, ffrwythau a changhennau'n disgyn o goed maent yn pydru ac yn ychwanegu maetholion at y pridd, gan ei wneud yn fwy ffrwythlon. Mae gwreiddiau coed yn helpu i atal pridd rhag cael ei olchi i ffwrdd.



Cynnyrch lleol

Mae cynhyrchu ffrwythau'n lleol yn lleihau'r ôl troed carbon gan ei fod yn dileu'r angen am drafnidiaeth sy'n defnyddio llawer o danwydd.



Mae coed yn rhyddhau ocsigen ac yn tynnu carbon deuocsid o'r aer

Yn ystod ffotosynthesis mae coed yn amsugno carbon deuocsid ac yn rhyddhau ocsigen sy'n ein galluogi ni i anadlu. Yna caiff carbon deuocsid ei storio y tu mewn i'r coed fel carbon.



Mae coed yn helpu i leihau llifogydd

Mae coed yn dal dŵr glaw yn
eu canghennau a'u dail ac yn ei
amsugno drwy eu gwreiddiau.
Gall hyn helpu i atal llifogydd.